Shelagh a Louisa yn dylunio addurniadau ar gyfer yr adeilad newydd

Y Cletwr Newydd

Ers misoedd bellach, mae unrhyw un sy'n teithio i gyfeiriad Machynlleth ar hyd yr A487 wedi sylwi ar adeilad newydd yn codi fel pe bai o ludw'r hen orsaf betrol yn Nhre'r-ddôl.

Gwyddom eisoes am y gamp ryfeddol a gyflawnwyd wrth lwyddo i agor siop gymunedol yn yr hen Wasanaethau Cletwr - am y cynnyrch amrywiol a safonol a gynigir yno, am y caffi penigamp, ac am yr ystod eang o weithgareddau sy'n digwydd drwy'r flwyddyn.

A nawr, mae'r fenter yn cymryd y cam nesaf, sef symud mewn i'w adeilad newydd. Llwyddwyd i ddenu symiau o arian sylweddol, a chael penseiri lleol i'w ddyluñio.

Am **9 o'r gloch, bore dydd Iau, 28 Medi**, cawn foddio'n chwilfrydedd, gan fod Cwmni Cymunedol Cletwr yn gwahodd cwsmeriaid ffyddlon, cefnogwyr, gwirfoddolwyr a chyfeillion i'r agoriad mawreddog. Eu neges yw "Dewch i'n helpu ni i ddathlu'r gamp syfrdanol hon, sy'n dangos pŵer cymuned i greu newidiadau positif er lles pawb."

Ar ddydd Iau 28, dydd Gwener 29 a dydd Sadwrn 30 Medi, bydd rhai o gyflenwyr y siop yn bresennol i siarad â chwsmeriaid am eu cynnyrch ac i gynnig samplau i'w blasu. Ac mi fydd sachau anrhegion i'r 100 cwsmer cyntaf - felly brysiwch yno!

Os ydych awydd rhoi help llaw i'r fenter, mae apêl am gymorth yn ystod y dyddiau'n arwain at yr agoriad - a chyfle am sbec ar yr adeilad newydd cyn yr agoriad swyddogol:

- clirio'r hen Gletwr - gan gynnwys pobl â faniau neu drelars i fynd â phethau oddi yno i'r tip/Craft: dydd Mercher 13, dydd Sadwrn 16, dydd Iau 21, dydd Sadwrn 23, dydd Sul 24 Medi
- cadwyn symud stoc, ail-stocio, labelu silffoedd, gwneud te, a sicrhau fod popeth yn berffaith ar gyfer yr agoriad: dydd Llun 25, dydd Mawrth 26 a dydd Mercher 27

Cysylltwch ar 01970 832113 neu cletwr@cletwr.com os ydych am helpu.

Edrychwn ymlaen at yr agoriad, ac at weld lluniau o'r achlysur a'r adeilad newydd yn rhifyn nesaf Papur Pawb.

Un o weithgareddau'r haf yng Nghletwr:fe gafodd pobl ifainc wers mewn ffotograffiaeth gan y ffotograffydd Giles W. Bennett, enillydd gwobr y Guardian